CYNGOR CYMDEITHAS LLANGOEDMOR COMMUNITY COUNCIL

**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Llangoedmor a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgoldy, Llangoedmor nos Lun 6 Chwefror 2017**

**Presennol:** Cadeirydd: Cyng Gareth Evans. Cyngr: Ken Symmons, Mrs Eleri Davies, Iwan Davies, Hywel Davies, Bryan Rees, Peter Hazzelby

Clerc

Aelodau'r Cyhoedd: Dim

### 1. Croeso ac Ymddiheuriadau
Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyngr: Mrs A Edwards, Mrs J Hawkes, C Lewis a Mrs K Morgan.

### 2. Gweddi Agoriadol
Gofynnodd y Cadeirydd i Mr D Easton siarad â'r Cyngor am ei gynnig i droi darn o dir segur ym Maesyderi yn ardd gymunedol. Esboniodd Mr Easton y byddai'n fodlon cyd-gysylltu prosiect i dyfu llysiau ar y darn tir, a'r rheiny i gael eu gwerthu'n lleol i dalu am offer a hadau. Cytunodd y Cyngor i ddarparu llythyr i gefnogi'r prosiect. Diolchwyd i Mr Easton gan y Cadeirydd ac yna gadawodd y cyfarfod.

### 3. Datgelu Buddiannau Personol
Dim

### 4. Materion Personol
Mynegodd y Cyngor ei ddymuniadau da i'r Cyng Mrs A Edwards gan fod ei gŵr yn yr ysbyty.

### 5. Ceisiadau Cynllunio

*Ynglŷn ag ymgynghoriad cynllunio Clarke telecom*
Roedd y cwmni wedi darparu nifer o leoliadau posibl ar gyfer gosod gorsaf sylfaen radio ar gyfer Telefonica yn ymgorffori mast rhwyllwaith 15m. Y dewis gorau o leoliad oedd tir i'r gorllewin o gyfnewidfa deleffon Llechryd. Ar ôl trafod, cytunwyd y byddai'r Cyngor yn aros i weld y cais cynllunio llawn cyn gwneud unrhyw sylw.

Dywedodd y Cyng Sirol H Lewis fod pwyllgor cynllunio CSC i drafod y cais ar safle Robert Davies Motors ddydd Mercher.

### 6. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol
Cynigiodd y Cyng B Rees y dylid derbyn y cofnodion fel cofnod cywir. Eiliwyd gan y Cyng I Davies a chytunwyd yn unfrydol.

### 7. Materion yn Codi
Cadarnhaodd y Clerc iddi anfon at yr adran Gorfodi Cynllunio y wybodaeth a oedd wedi ei chyrraedd ynglŷn â pherchnogaeth y llain adeiladu. Roedd yn ymddangos bod honno'n cael ei defnyddio fel canolfan garddio fechan.

### 8. Cyllid a Gweinyddu

| | | |
|---|---|---|
| Abacus | Glanhau'r bloc toiledau Ion | 140.00 |
| Mathew Penny | Goleuadau Nadolig | 456.72 |
| SWALEC | Cyflenwad trydan goleuadau Nadolig heb fynd drwy feter | 97.57 |
| Un Llais Cymru | Aelodaeth 17 / 18 | 178.00 |
| S E Houghton | Swyddfa yn y cartref 25/ Postio 6.60 / | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | milltiroedd 11.92) | 43.52 | |
| 30.02.17 | S E Houghton | Cyflog Ion | 330.18 | AS |
| | | | 1,245.99 | |

Cynigiwyd gan y Cyng Mrs E Davies, eiliwyd gan y Cyng H Davies a chytunwyd yn unfrydol.

*Gadawodd y Cyng Sirol H Lewis y cyfarfod.*

*Llofnodwyr ar ôl etholiad*
Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o lofnodwyr ar ôl etholiad, cytunwyd i ychwanegu'r Cyngr I Davies ac H Davies at y cyfrif.
**GWEITHREDU:** Cael ffurflenni GAN: Y Clerc

Roedd Mr Brown wedi cadarnhau y byddai'n gwacau'r biniau ar y cae chwarae o fis Ebrill i fis Hydref. Ni fyddai'n codi tâl am y gwasanaeth hwn gan y byddai ar y safle beth bynnag.

*Gwefan*
Mynegodd y Cadeirydd fod dwy wefan i'w gweld dan enw'r Cyngor, ac un o'r rheiny yn hen iawn. Deallai fod yr hen un wedi ei llunio gan y Cyng C Lewis ac y byddai yntau'n ceisio ei dileu gan ofyn i'r Cyng I Davies am ei gymorth proffesiynol i wneud hynny. Cadarnhaodd y Clerc nad oedd ganddi ddim hawliau gweinyddol dros yr hen safle ac na allai wneud dim byd am y peth.
**GWEITHREDU:** Dileu'r hen wefan GAN: Cyng C Lewis a'r Cyng I Davies

*Adnewyddu Baner y Ddraig Goch*
Cytunwyd i gael baner nerwydd yn barod erbyn dydd Gŵyl Dewi. Nodwyd y gellid prynu baner fwy sylweddol yn y dyfodol.
**GWEITHREDU:** Prynu baner newydd GAN: Cyng B Rees

*Roedd dadansoddiad TAW wedi'i anfon at* HMRC. Nawr gallai'r Clerc edrych ar PAYE.

Llofnododd y Cadeirydd lythyr a'i roi i'r Clerc i amlinellu ei sefyllfa o ran darpariaeth pensiwn gweithle.

**9. Priffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus**
Cytunodd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i edrych am flychau blodau a'u cost. Gofynnwyd i'r Felin Goed gysylltu â'r Cadeirydd.
**GWEITHREDU:** Edrych am flychau blodau GAN: Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd

Nodwyd bod plât enw newydd wedi'i osod ar gyfer Llangoedmor. Roedd plât enw hefyd wedi'i addo ar gyfer Green Hill.
**GWEITHREDU:** Mynd ar ôl hyn GAN: Y Clerc

**10. Amwynderau**
*Man chwarae: Archwilio'r siglenni gan y* Cyngr C Lewis a H Davies
Ar ôl cyfeirio at yr adroddiad a oedd wedi'i ddarparu, cytunwyd y dylai'r siglenni gael eu trwsio yn hytrach na chael rhai yn eu lle. Darparodd y Cyng I Davies fanylion cyswllt contractwr lleol i gysylltu ag ef. Cytunwyd i gael cost seddau newydd.
Diolchwyd i'r Cyng C Lewis am ei adroddiad cryno.
**GWEITHREDU**: Cael contractwr GAN: Y Clerc

*Toiledau Cyhoeddus*
Roedd y Clerc wedi cael addewid dyfynbris gan y plwmwr. Byddai'n mynd ar ei ôl i gael ymateb.

Roedd y Cyngor wedi cysylltu â'r trydanwr ynglŷn â'r golau allanol. Byddai'r Clerc yn mynd ar ei ôl i orffen y gwaith ac i anfon anfoneb yn y flwyddyn ariannol hon.

**GWEITHREDU:** Mynd ar eu hôl GAN: Y Clerc

*Hysbysfwrdd*
Dywedodd y Clerc fod yr hysbysfwrdd yn y parc ceir yn mynd yn fwy a mwy anodd ei ddefnyddio gan fod y pren yn chwyddo mewn tywydd gwlyb ac yn ei gwneud yn anodd codi'r byrddau postio i lawr. Gofynnodd a allai'r Cyngor ystyried cael un yn ei le yn y flwyddyn ariannol i ddod i'w wneud yn haws ei ddefnyddio.
**GWEITHREDU:** Eitem ar yr agenda GAN: Y Clerc

**11. Prosiectau'n parhau**
*Cadw llygad ar gyflymdra*
Yn sgil yr awgrym gan y Cyng C Lewis, cytunwyd i ddileu'r eitem o'r agenda nes gallai rhagor o wybodaeth fod ar gael.
**GWEITHREDU:** Dileu o'r agenda GAN: Y Clerc

*Llythyr Newyddion*
Gohirio

*Hyfforddiant Diffibrileiddiwr*
Roedd y Cyng Mrs A Edwards wedi trefnu hyfforddiant ar gyfer 22 Chwefror yn Neuadd y Cwrwgl. Yr amser i gael ei gadarnhau.

**12. Digwyddiadau**
Sgwrs ar Arolwg o Genedlaethau'r Dyfodol
Teimlai'r Clerc a'r Cadeirydd ill dau fod y sgwrs yn un eithriadol o fuddiol. Dywedodd y Clerc fod ganddi nawr lawer gwell dealltwriaeth o'r ffordd y gallai Cynghorau llai ddefnyddio'r ddeddfwriaeth roedd hi eisoes wedi gallu ei dyfynnu wrth ymateb i faterion.

**13. Adroddiadau cyfarfodydd**
Roedd y Clerc wedi bod mewn digwyddiad Panel Taliadau Annibynnol. Roedd y Panel fel pe bae'n methu gwybod sut i drin y sector cynghorau Tref a Chymuned a'i fod yn ceisio cael gwybodaeth am y sector. Roedd y Panel yn cael neges gymysglyd iawn ynglŷn â thaliadau cynghorwyr. Credai rhai Cynghorau mai dyma oedd y ffordd ymlaen o gofio'r cyfrifoldebau cynyddol. Teimlai Cynghorau eraill yn gryf, er eu bod wedi eu hethol, fod cynghorwyr Tref a Chymuned yn rhoi eu hamser yn wirfoddol.

**14. Gohebiaeth + gohebiaeth e-bost**
*Gohebiaeth i weithredu arni*

Papur Gwyn 'Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac Adnewyddiad'
Sylwyd y byddai'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael effaith fawr ar ddarparu gwasanaethau. Gallai Cynghorau Tref a Chymuned gael pwerau ychwanegol, ond bwriedid ymchwilio ymhellach i'r sector.

Arolwg Cynghorau Tref a Chymuned, dyddiad cau 30 Mawrth 2017
**GWEITHREDU:** Ymateb GAN: Y Clerc

Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol i Sir Ceredigion
Dywedodd y Clerc fod y Cyngor wedi ymateb i'r ymgynghoriad cychwynnol ac ni allai weld beth ymhellach y gellid ei ofyn o'r Cyngor.

*Gohebiaeth i'w nodi:*
Digwyddiad 50+ Byw yn Dda 1 Mawrth 2017 Neuadd y Dref, Aberteifi 2pm – 5pm

Ymgynghoriad Cyhoeddus Asesiad o Lesiant Lleol BGC CEREDIGION

Cyfleoedd Hyfforddiant gan Un Llais Cymru

Digwyddiad 'Place Plans', dydd Mawrth 7 Chwefror, Trefdraeth

Arolwg Cynghorau Tref a Chymuned, dyddiad cau 30 Mawrth 2017

Bwletin Un Llais Cymru Ionawr 2017

Gwobrau Cenedlaethol Arfer Arloesol Un Llais Cymru 2017

Buddsoddi yng ngwasanaethau'r trydydd sector yn cynyddu ond awdurdodau lleol yng Nghymru heb fod yn defnyddio'r trydydd sector i'r eithaf

Rhaglen 2017, proses gofrestru ar gyfer y Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol: Trydedd Brwydr Ypres (Passchendaele) ac 'Oriel' newydd

Newyddlen Swyddfa Archwilio Cymru
Angen i gynghorau Cymuned wella rheolaeth a llywodraethiant ariannol DATGANIAD I'R WASG

Rhestr Prisiau Chwarae Sutcliffe 2017

**15. Cyfnewid Gwybodaeth**

Gofynnodd y Cyng B Rees pryd fyddai gwybodaeth ar gael am etholiadau 4 Mai. Esboniodd y Clerc y byddai'r Cyngor Sir yn cysylltu â phob Clerc ynglŷn â dosbarthu ffurflenni. Byddai amserlen gadarn i gadw ati a byddai hi'n rhoi gwybod i'r Cynghorwyr i gyd cyn gynted ag y deuai unrhyw wybodaeth.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid gosod dyddiad ar gyfer cinio'r Cadeirydd. Cytunwyd y byddai'n cysylltu â Gwesty'r Cliff ynglŷn â threfniadau ar gyfer 28 Ebrill. Nodwyd y bydd yn gofyn am ganiatâd Cyngor Cymuned y Ferwig os byddai'r Cadeirydd yn bwriadu gwisgo Cadwyn ei Swydd.
**GWEITHREDU:** Trefnu'r cinio GAN: Y Cadeirydd

**16. Dyddiad y cyfarfod nesaf – 06.03.17 - 7.00pm**

*Gan nad oedd dim busnes pellach i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.05pm.*